OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 2528 (Cy.243) (C.95)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 12) (Cymru) 2003

*Wedi'i wneud - - 1 Hydref 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 118(6) a 122 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 12) (Cymru) 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Ddeddf " ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Dyddiau penodedig**

**2.** 2 Hydref 2003 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol y Ddeddf—

(a) Adrannau 8, 9(1) a (2), 11 i 15, 17 i 21, 24, 26 i 32, 36 a 37 i'r graddau y mae eu darpariaethau'n ymwneud ag asiantaethau nyrsys ac nad ydynt eisoes mewn grym;

(b) is-adran (1) o adran 111, ac is-adran (2) o'r adran honno i'r graddau y mae'n hepgor, yn adran 13 o Ddeddf Cyflogaeth Asiantaethau 1973, baragraffau (b) ac (c) o is-adran (7) a'r amod sydd ynddi;

(c) adran 117(2) o, ac Atodlen 6 i'r Ddeddf, i'r graddau y maent yn ymwneud â Deddf Asiantaethau Nyrsys 1957 a Deddf Cyflogaeth Asiantaethau 1973.

(**1**) 2000 p.14. Rhoddwyd y pwerau i'r Gweinidog priodol. Ystyr "Gweindiog priodol" ("appropriate Minister") yw'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (a.121(1) o'r Ddeddf). Ystyr "Cynulliad" ("Assembly") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a.5(b) o'r Ddeddf).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
1 Hydref 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym nifer o ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 sy'n ymwneud â rheoleiddio Asiantaethau Nyrsio. Effaith hyn fydd dwyn yr asiantaethau hyn o fewn fframwaith reoliadol Deddf Safonau Gofal 2000. Bydd hefyd yn dwyn i rym ddiddymiad Deddf Asiantaethau Nyrsys 1957 y trwyddedwyd yr asiantaethau hyn odani gan yr Awdurdod Lleol perthnasol.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 y gwneir cofnod mewn perthynas â hwy yn y Tabl isod wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru ar y dyddiad a bennir gyferbyn â'r cofnod. Cafodd y darpariaethau hynny y dilynir y cofnod amdanynt ag "(**a**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2000/2992 (Cy.192) (C.93); cafodd y rhai a ddilynir gan "(**b**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2001/139 (Cy.5) (C.7); cafodd y rhai a ddilynir gan "(**c**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2190 (Cy.152) (C.70); cafodd y rhai a ddilynir gan "(**d**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2354 (Cy.192) (C.80); cafodd y rhai a ddilynir gan "(**e**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2504 (Cy.205) (C.82); cafodd y rhai a ddilynir gan "(**f**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2538 (Cy.213) (C.83); cafodd y rhai a ddilynir gan "(**g**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2782 (Cy.235) (C.92); cafodd y rhai a ddilynir gan "(**h**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2002/920 (Cy.108) (C.24); cafodd y rhai a ddilynir gan "(**i**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2002/1175 (Cy.123) (C.31), cafodd y rhai a ddilynir gan (**j**) eu dwyn i rym gan O.S. 2003/152 (Cy.22) (C.8) a chafodd y rhai a ddilynir gan "(**k**)" eu dwyn i rym gan O.S. 2003/ 501.

| Y Ddarpariaeth | Y Dyddiad Cychwyn |
|---|---|
| Adrannau 1 i 5 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 77 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 8 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 8 (yn rhannol) (**h**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 8 (yn rhannol) (**j**) | 30 Ionawr 2003 |
| Adran 9(1) a (2) (yn rhannol) (**j**) | 30 Ionawr 2003 |
| Adran 9(3) i (5) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 9 (gweddill) (**h**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 10(2) i (7) (yn rhannol) (**h**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 10(2) i (7) (yn rhannol) (**j**) | 30 Ionawr 2003 |
| Adrannau 11 a 12 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adrannau 11 a 12 (yn rhannol) (**h**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adrannau 11 a 12 (yn rhannol) (**j**) | 30 Ionawr 2003 |
| Adran 13 (yn rhannol) (**h**) | 1 Ebrill 2002 |